O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2818 (Cy. 296)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed	*9 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*19 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Tachwedd 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Bethesda, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 19 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd ym Methesda yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn dros bellter o 55 o fetrau tua'r de o bwynt sy'n gyfagos i ffin ogleddol Rhif 1, Rhes y Graig, Bethesda.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.